Adenydd colomen pe cawn

Caneuon Ffydd: Rhif 749

Adenydd colomen pe cawn,
    ehedwn a chrwydrwn ymhell,
i gopa bryn Nebo mi awn
    i olwg ardaloedd sydd well;
a'm llygaid tu arall i'r dŵr,
    mi dreuliwn fy nyddiau i ben
mewn hiraeth am weled y Gŵr
    fu farw dan hoelion ar bren.

'Rwy'n tynnu tuag ochor y dŵr,
    bron gadael yr anial yn lân;
mi glywais am goncwest y Gŵr
    a yfodd yr afon o'm blaen;
fe dreiglodd y maen oedd dan sêl,
    fe gododd y Cadarn i'r lan;
fe'i caraf ef, deued a ddêl,
    mae gobaith i'r truan a'r gwan.

Ni allaf tra bwyf yn y cnawd
    ddim diodde'r caniadau sydd fry,
na llewyrch wynepryd fy Mrawd –
    mae'n llawer rhy ddisglair i mi;
'n ôl hedeg a gadael fy nyth,
    a chuddio fy mhabell o glai,
bydd digon o nefoedd dros byth
    ei weled ef fel ag y mae.

1, 3 THOMAS WILLIAM, 1761 – 1844
2 JOHN WILLIAMS, 1728? – 1806

MYFYRDOD

Mae pawb yn falch o gael dianc ar brydiau, rhag ein trefniadau a'n gorchwylion dyddiol, os dim ond am hoe fach cyn dychwelyd wedyn wedi ein hadnewyddu. Pan fydd rhyw drafferthion neu amgylchiadau yn bygwth ein trechu, dyma'n hymateb bryd hynny hefyd. Dyna oedd ymateb Dafydd y brenin ar ddechrau Salm 55

wedi i Absalom ei fab ei fradychu a phan oedd hi'n ymddangos yn ddu iawn arno: 'O na fyddai gennyf adenydd colomen, imi gael ehedeg ymaith a gorffwyso! Yna byddwn yn crwydro ymhell ac yn aros yn yr anialwch; brysiwn i gael cysgod rhag y gwynt stormus a'r dymestl' (Salm 55: 6–8).

Cael dianc yw dyhead calon Dafydd, ond mae'n gwybod hefyd fod Duw yn fwy na'i holl elynion a'i drafferthion ac fe ddysgodd sut i droi ei drafferthion yn gyfleon am weddi. Erbyn diwedd y Salm, mae'n gallu cyhoeddi: 'Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac fe'th gynnal di; ni ad i'r cyfiawn gael ei ysgwyd byth' (adn. 22).

Defnyddia Thomas William, Bethesda'r Fro, y dyhead hwn gan Dafydd am adenydd colomen a'i droi'n ddyhead am y nefoedd ei hun ac am gael gadael ei nyth yma ar y ddaear a'i babell o glai, ond os na chaiff wneud hynny eto, yna mae o leiaf am gael cip ar y nefoedd o'r fan lle mae. Moses gafodd fynd i ben mynydd Nebo i gael golwg ar wlad yr addewid yn ymestyn allan o'i flaen. Roedd ei 'lygaid tu arall i'r dŵr' ar y tir yr oedd wedi dyheu amdano cyhyd, ond ni chafodd fynd i mewn i'r wlad am mai darlun yn unig oedd hi o'r wir orffwystra oedd yn aros amdano yn y nefoedd.

Ceir priodas hyfryd yn yr emyn hwn rhwng dau bennill Thomas William ac un John Williams yn y canol. Mae'r delweddu yn gryf yn y penillion i gyd; yr adenydd a'r nyth a'r afon. Mae penillion Thomas yn llawn hiraeth pruddglwyfus 'am weled y Gŵr fu farw dan hoelion ar bren', a phennill John wedyn yn llawn gobaith oherwydd concwest 'y Gŵr a yfodd yr afon o'm blaen'. Fe wnaeth fwy na chroesi'r afon i'r wlad well, fe 'yfodd yr afon' mewn buddugoliaeth lwyr ar angau a'r bedd yn ei farw aberthol a'i atgyfodiad wedyn, ac 'fe gododd y Cadarn i'r lan', gan gynnig ffordd ar dir sych inni groesi gydag ef. 'Mae gobaith i'r truan a'r gwan.'

GWEDDI

O Dduw Dad, boed fy nyhead innau hefyd am gael bod yn dy gwmni di, a dyro imi gipolwg ar 'ardaloedd sydd well', er mwyn imi gael dwyn eraill i olwg y wlad honno. Buasai'n braf cael dianc yno a bod gyda thi, ond wnei di f'atgoffa, Arglwydd, dy fod yn fwy na'm trafferthion i gyd, a'm helpu fel Dafydd gynt i fwrw fy maich arnat ti am gynhaliaeth tra wyf i yma yn fy nyth ar y ddaear. Yn enw'r Gŵr, Iesu, a yfodd yr afon o'm blaen. Amen.